



At:

Arweinwyr Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru

Copi at:

Prif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Cyllid, Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol
yng Nghymru

Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyllid, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

27 Chwefror 2024

Annwyl Gydweithwyr,

Heddiw, rwyf yn cyhoeddi manylion setliad refeniw a chyfalaf dros dro Llywodraeth Leol ar gyfer 2024-25 (y setliad) i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol (awdurdodau) yng Nghymru trwy ddatganiad ysgrifenedig gan y Cabinet. Mae'r datganiad hwnnw ynghlwm er gwybodaeth ichi. Mae *Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol* terfynol a'r tablau ychwanegol sy'n cynnwys manylion y Setliad terfynol yn ôl awdurdod lleol hefyd yn cael eu cyhoeddi ar [wefan Llywodraeth Cymru](#).

Wrth inni ddatblygu Cyllideb derfynol 2024-25, rydym wedi blaenoriaethu diogelu gwasanaethau cyhoeddus craidd rheng flaen cyn belled â phosibl; cefnogi'r aelwydydd hynny sydd wedi cael eu taro fwyaf a blaenoriaethu swyddi, lle bo modd. Mae'r awdurdodau lleol yn allweddol i hyn.

Rwyf wedi defnyddio dyraniadau cyllid ychwanegol i Gymru, a ddaeth i law o ganlyniad i benderfyniadau gwario Llywodraeth y DU mewn meysydd datganoledig yn Lloegr, i gynyddu £14.4m ar setliad llywodraeth leol. Rwyf hefyd yn gwrthdroi gostyngiad o £10m i grant y gweithlu cymdeithasol ar gyfer 2024-25. Mae hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd y gwasanaethau cyhoeddus craidd hyn ac yn ymateb i alwadau gan Arweinwyr yr awdurdodau lleol ac Aelodau'r Senedd i flaenoriaethu llywodraeth leol os bydd adnoddau pellach ar gael.

Gan addasu ar gyfer trosglwyddiadau, bydd y cyllid refeniw craidd ar gyfer llywodraeth leol yn 2024-25 yn cynyddu 3.3%, ar sail tebyg at ei debyg, o'i gymharu â 2023-24. Ni fydd unrhyw awdurdod yn cael cynnydd o lai na 2.3%. Yn 2024-25, bydd yr awdurdodau lleol yn cael £5.7bn gan Grant Cynnal Refeniw (RSG) Lywodraeth Cymru ac ardrethi annomestig (NDR) i ddarparu gwasanaethau allweddol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ogystal â'r Setliad craidd, rwyf yn cyhoeddi gwybodaeth ddangosol am grantiau referniw a chyfalaf penodol a gynlluniwyd ar gyfer 2024-25, sy'n dod i dros 1.3bn ar gyfer referniw a thros £956m ar gyfer cyfalaf.

Fel y trafodwyd drwy gyfarfod yr Is-Grŵp Cyllid ym mis Ionawr, fel rhan o'n Rhaglen Lywodraethu rydym wedi ymrwymo i leihau'r baich biwrocraidd ar lywodraeth leol. Mae eich awdurdodau lleol wedi tynnu sylw at reoli a gweinyddu grantiau fel y maes lle ceir y cyfle mwyaf ar gyfer newid. Mae'r setliad terfynol yn cynnwys trosglwyddo tri grant referniw i grant referniw llywodraeth leol yn ogystal ag uno grantiau eraill i ddarparu grantiau mwy o faint a mwy hyblyg. Adlewyrchir y newidiadau hyn yn y tablau cysylltiedig gan ddarparu tryloywder am y symudiadau fel y gallwch chi a phartneriaid eraill weld yn glir unrhyw newidiadau mewn cyllid yn eu crynswth. Bydd y gwaith hwn, gyda chi, yn parhau.

Mae gwasanaethau cymdeithasol yn parhau i fod yn flaenoriaeth i gynghorau ac i Lywodraeth Cymru. Mae ein hymrwymiad ar y cyd i sicrhau'r cyflog byw gwirioneddol i weithwyr gofal yn adlewyrchu hyn. Cafodd costau galluogi'r awdurdodau barhau i dalu costau ychwanegol cyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal eu cynnwys yn y cynnydd yn y gyllideb ddangosol a gyhoeddwyd y llynedd.

Unwaith eto, rwyf wedi penderfynu darparu'r holl gyllid sydd ar gael ymlaen llaw a pheidio â dal cyllid yn ôl er mwyn cydnabod cytundeb cyflog athrawon 2024/25 yn ystod y flwyddyn. Felly, mae rhaid i'r awdurdodau gynllunio yn eu cyllidebu i ddarparu ar gyfer y costau hyn.

Rwyf yn darparu pecyn o gymorth ardrethi annomestig a fydd o fudd i bob talwr ardrethi yng Nghymru. Cadarnheais y pecyn hwn fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft. Byddwn yn rhoi cap o 5% ar y cynnydd yn y lluosydd ardrethi annomestig ar gyfer 2024-25, ar gost flynyddol gylchol o £18m. Mae hyn yn is na'r cynnydd o 6.7% a fyddai'n gymwys fel arall. Byddwn hefyd yn buddsoddi £78m yn ychwanegol i ddarparu pumed flwyddyn yn olynol o gefnogaeth i fusnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch gyda'u biliau ardrethi annomestig. Rydym hefyd yn parhau i gefnogi talwyr ardrethi y mae eu hatebolrwydd wedi cynyddu yn dilyn yr ymarfer i ailbriso ardrethi annomestig yn 2023. Mae ein cynllun rhyddhad trosiannol yn parhau i gyflwyno newidiadau yn raddol ar gyfer talwyr ardrethi cymwys ar gost o £38m yn 2024-25. Mae hyn yn ychwanegol at ein cynlluniau rhyddhad ardrethi parhaol.

Er bod y cyfraddau chwyddiant a fu'n uchel iawn yn ddiweddar bellach yn gostwng, rwyf yn cydnabod eu bod yn dal yn uchel o'u cymharu â'r 15 mlynedd diwethaf. Mae costau sylfaenol staff a gwasanaethau wedi cynyddu ac nid ydynt yn lleihau. Mae'r galw am wasanaethau, ochr yn ochr â'r pwysau yn sgil costau yn golygu bod yr awdurdodau lleol wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd ar wasanaethau, effeithlonrwydd a'r dreth gyngor wrth bennu cyllidebau. Rwyf am gydnabod yr heriau yr ydych yn eu hwynebu. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â llywodraeth leol mewn ffordd gadarnhaol ar bob mater sy'n gysylltiedig â chyllid drwy'r Is-Grŵp Cyllid.

Amlinellais y safbwynt ar gyllid cyfalaf i Lywodraeth Cymru fel rhan o'm datganiad ar y gyllideb heddiw. Fel y nodais yn fy llythyr atoch ar y setliad dros dro, rwyf wedi cadw'r cyllid cyfalaf cyffredinol i'r awdurdodau lleol yn £180m, sef y lefel ddangosol a bennwyd y llynedd a'r cyfalaf o £20 miliwn ar ein blaenoriaeth ar y cyd o ddatgarboneiddio. Rwyf yn gwybod y bydd hyn yn golygu y bydd rhaid i'r awdurdodau lleol edrych yn ofalus ar eu rhaglenni cyfalaf a phennu blaenoriaethu er mwyn parhau i fuddsoddi yn y ffordd fwyaf effeithiol posibl wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

Cyfeiriodd Datganiad yr Hydref y Canghellor at y newidiadau i'r gyfradd SCAPE, sy'n arwain at oblygiadau ar gyfer costau cyfraniadau cyflogwyr at bensiynau athrawon a diffoddwyr tân.

Disgwylir i'r cyllid ar gyfer hyn gael ei ddarparu gan Lywodraeth y DU yn ystod 2024-2025. Rwyf wedi ysgrifennu at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys i bwysu am sicrwydd ar lefel ac amseriad y cyllid hwn. Gallaf eich sicrhau y bydd y cyllid y mae Llywodraeth Cymru yn ei gael ar gyfer hyn yn cael ei ddarparu i gyrrff perthnasol. Bydd fy swyddogion yn rhoi gwybod i'ch swyddogion chi.

Gwn eich bod yn ymwybodol o'r gofyniad i gydymffurfio â'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, a hefyd y dyletswyddau cydraddoldeb penodol lle bo'n gymwys. Dylid asesu effaith yr opsiynau cyllidebol ar gydraddoldeb a dylai hyn lywio unrhyw benderfyniadau terfynol. Rhaid i'r awdurdodau hefyd fod wedi cymryd eu dyletswyddau i ystyriaeth o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Safonau'r Gymraeg wrth baratoi cynlluniau ar gyfer 2023-24.

Bydd y Llywodraeth yn mynd ati yn awr i osod Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 1) ar gyfer 2024-25 i'w drafod yn y Senedd ar 5 Mawrth 2024.

Yn gywir,



Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government